

Mewn Ocsiwn yn y Gaerwen

gan William Owen, Borth-y-gest

Rwy'n methu penderfynu'n union p'r un ai *Dychwelyd Gartref* ai *I Mewn i'r Porthladd Tawel Clyd* a ddylai fod yn is-deitl i hyn o druth. Mae un peth yn sicr, byddai'r naill fel y llall yn gwbl addas canys, ar ôl gofidiau dyrys deithio'r cefnforoedd a gorthymderau filoedd yn sgil hynny mae'n ddiamau, dyna mewn gwirionedd fu hanes un o longau'r Port ar y pumed ar hugain o Ebrill eleni. Cyrraedd am ugain munud wedi dau, ar frig llanw'r prynhawn.

Borthwen o hyd. Wedi ei hadeiladu gan David Jones a'i lansio ar y dydd olaf o Ionawr 1907 roedd ymhlith y llongau olaf i'w codi ym Mhorthmadog. (Yr olaf un wrth reswm oedd y *Gestiana* - 1913 - y bu ei hanes yn un mor fer a thrasig).

Roedd ei pherchennog gwreiddiol, Owen Humphrey Owen, Castle View, Talsarnau - o leia' fo oedd â'r siâr fwyaf ynddi - yn dad i'r diweddar Ronald Owen. Nid syndod o gwbl felly bod Glenys â'r fath ddi-ddordeb

ngeiriau Aled Eames: *'llongau hyfryd a hawddgar a cheinder eu ffurf a chydbwysedd eu hwylybrenni yn deg i edrych arnynt. Nis gwelwyd mo'u rhagorach...'* Ond yn aml byddent yn gorfod wynebu enbydrwydd cynddeiriog Gogledd Iwerydd pan fyddai'r tonnau yn cau fel mynyddoedd amdanynt a gerwinder ambell storm yn achosi cryn ddfrod. Gelyn arall a'i hwynebai wrth nesu ohonynt at arfordir St. John, dyweder, oedd y niwloedd oer a thrwchus wrth iddynt ymlafnio drwy fôr oedd, yn y gaeaf beth bynnag, yn rewlwm. Y syndod yw eu bod wedi gallu gwibio'n ôl a blaen mor gyson chwim a lled ddianaf. Fe'i gwerthwyd yn 1916 i ddau fasnachwr o Newfoundland ond daeth i derfyn ei rhawd ger Cadiz yn fuan wedyn.

Eithr beth am y lluniau eu hunain? Un o'r *Gracie* dan ei hwyliu yw'r cyntaf gyda'r Port, fe haerir, yn y cefndir. Ond prin hwyrach fod y cefndir wedi ei leoli'n gywir. Eidalwr, fe greidir, oedd yr arlunydd oblegid yn ôl un dystiolaeth yn yr Eidal y cafodd nifer o'r lluniau o'r hen longau eu cynhyrchu a thybed nad Napoli sydd yn gefndir iddo ac mai Feswfiws ydyw'r mynydd a welir yn hytrach na Moel-y-Gest? Llun eitha dramatig ohoni yn brwydro yn erbyn môr tonnog hynod dymhestlog yw'r llall.

Ond i dorri stori hir yn fyr penderfynwyd cyrchu i'r Gaerwen wedyn trannoeth gyda Glenys i'n canlyn. Cyrraedd yn brydlon er sicrhau sedd - ac yno, mewn gwewyr y buom yn cnoi'n hewinedd yn aros i'r gweithgareddau gychwyn am ddeg o'r gloch.

Gyda threigliad tragwyddol hir y teirawr cyntaf o werthu pob mathau o drugareddau - rhai gwych a rhai gwachul, gydag ambell un yn cael bargaen - un arall yn talu drwy'i drwyn, y cyfan yn ôl arfer ocsiynau, fe ddeuwyd o'r diwedd at eitem Rhif 355 - *'Watercolours of the Porthmadog sail ship Gracie'* cyhoeddodd gw'r y morthwyl ynghyd â'r hysbys rigmarôl arferol. *'Who will bid me fifteen hundred to start?'* Rhywun yn y cefn yn amneidio'n syth. Yna am oddeutu'r munud a hanner nesaf a ymddangosai'n hwy na'r un oes bu galed y bygylu. Cyrhaeddwyd y deunaw cant ar amrantiad bron ond wedi hynny dechreuwyd gwahanu'r had da oddi wrth yr efrau. Mae'n wir fod un arall o ardal Yr *Wylan* wedi eu ffansio ond buan yr

(Parhad ar dudalen 21)



Y '*Gracie*' ar fôr tymhestlog.

I mewn i hafan Borth-y-gest i fod yn fanwl. Yno, yn y Borthwen y mae wedi docio bellach - ac yno, gellir bod yn weddol sicr, yr erys y rhawg. Wel, o leiaf bâr o luniau tra arbennig mewn dyfrlliw ohoni. Dyma fel y bu.

Fel un sy'n sgut am gyrchu i ocsiynau roeddwn i un bore Sadwrn yn ddiweddar yn mynd â chrib mân, mewn rhifyn o'r *Herald*, drwy restr hirfaith o drugareddau a oedd i'w cynnig yn arwerthiant Cwmni Morgan Evans yn Y Gaerwen y dydd Iau canlynol.

Fe dynnodd un eitem fy sylw. Yng ngeiriau'r hysbyseb: *An excellent pair of water colours of the Porthmadog sail ship Gracie...* Nawr, mae'n rhaid cyfaddef na fu i minnau, fel y bardd enwog hwnnw gynt, ryw lawer o ddiddanwch yn y môr fel yn y mynydd, ond penderfynais er hynny y byddai'n drywydd gwerth ei ddilyn. Ac i'r Gaerwen â mi y diwrnod cyn yr ocsiwn i gael gweld yn union sut fath rai oeddynt. Roedd mwy o wybodaeth yn eu cych ar y catalog y credais i roi dwy bunt amdano! Rhif 355. Disgrifiad lled fanwl o'r ddau lun i gychwyn cyn rhoi manylion wedyn am y llong hithau gan gyfeirio ati fel '*a Newfoundland trader bought by an O. H. Owen, Borth-y-gest*'.

Unwaith y cyrhaeddais gartref fe godais y ffôn i roi galwad i Mrs Glenys Owen y Borthwen, gweddwyd y diweddar Ronald Owen. Tybed a wyddai hi rywbeth am y llong arbennig honno? Cyn i mi orffen fy stori roedd hi wedi torri ar fy nhraws, wedi cynhyrfu braidd:

'Nid lluniau o'r *Gracie* 'rïoed?' holodd. 'Rydw i wedi bod yn chwilio ers blynyddoedd. Mi rown rwbath am eu gweld nhw. Faint â'n nhw tybed? Biti na faswn i'n medru mynd yno 'fory yntê?'

Ia, yn sicr un o longau'r Port oedd y *Gracie*, enw sy'n perarogli ar aelwyd

yn y mater.

Fe'i bedyddiwyd yn *Gracie* am mai dyna enw mam Owen Humphrey Owen ac ef, yn ŵr ifanc 27 oed, oedd ei chaptén ar ei mordaith gyntaf. Yn wir, yr oedd ei dad yntau, William Owen, er yn hynafgwr chwech a thrigain erbyn hynny yn gweithredu fel bosn ar yr un fordaith ond fe'i trawyd yn wael yn Svendborg, Denmarc a bu raid i'r llong hwylio hebdo. Fe ail ymunodd â hi yn ddiweddarach a bu'n rhan o'i chriw am rai blynyddoedd wedyn nes ei fod wedi cyrraedd Oed yr Addewid. Creadur gwydn mae'n ddiamau.

Perthynai'r *Gracie* i ddosbarth o sgwneri tri mast gosgeiddig y deuwyd i'w hadnabod fel y *Western Ocean Yachts*, y rhai oedd yn masnachu â Newfoundland a Labrador. Golygfa dra ysblennydd, meddir, oedd gweld nifer ohonynt â'u hwyliu'n llawn yn mynd yn un fflyd ar draws yr Atlantig. Yng



Y '*Gracie*' - un o longau hwyliu Porthmadog.